



**YSGOL
LLANFYLLIN**

11.2.20

Annwyl Riant / Ofalwr,

Pwrpas y llythyr hwn yw eich hysbysu o newid i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yng Nghyfnod Cynradd yr ysgol yn seiliedig ar gyngor diweddara Llywodraeth Cymru.

Bydd **Dydd Llun Chwefror 22^{ain}** yn ddiwrnod paratoi i athrawon y cyfnod sylfaen ac ni fydd unrhyw ddysgu ar-lein i'r disgyblion hynny sydd yn nosbarthiadau Miss Griffiths a Mrs Martin. Bydd dysgu ar-lein yn ail gychwyn i ddisgyblion Blwyddyn 3 i 6 a bydd y swigen y gweithwyr allweddol ar gael i holl ddisgyblion y cyfnod cynradd ar y Campws Uwchradd.

O **Ddydd Mawrth Chwefror 23^{ain}**, bydd y Cyfnod Cynradd ar agor i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn unig. Dyma ddisgyblion sydd naill ai yn y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 neu Flwyddyn 2 ac yn cael eu haddysgu gan Miss Griffiths neu Mrs Martin. Ni fydd unrhyw ddysgu ar-lein ar gael i'r disgyblion hyn gan y bydd y dysgu yn cymryd lle yn yr ysgol yn ystod y cyfnod hwn.

Ar gyfer y disgyblion cyfnod sylfaen, bydd angen eu gollwng yn y bore wrth y gatiâu dwbl yn arwain i iard flaen y Cyfnod Cynradd am 8.50 y.b. a'u casglu o'r un man am 3.10 y.p. Bydd gofyn i'r disgyblion ddod a byr bryd iachus ar gyfer amser egwyl a bydd cinio yn gweithredu fel y mae yn awr felly bydd cinio ysgol ar gael. Bydd y Clwb Brecwast ar gael o 8 o'r gloch y bore.

Mae'r sefyllfa ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn parhau fel y mae yn awr.

Bydd dysgu ar-lein ar gael i bob disgybl yn y blynyddoedd hyn. Os yw eich plentyn yn mynychu'r swigen gweithwyr allweddol, bydd hwn yn parhau ar y Campws Uwchradd lle y bydd clwb brecwast a Bobol Bach ar gael i blant yn y blynyddoedd hyn yn unig.

Bydd y sefyllfa yn cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru a byddwn yn eich hysbysu o unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Diolch am eich cefnogaeth barhaol yn ystod y pandemig.

Yn gywir,

Ann Roberts, Pennaeth Cynorthwyol.

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tim Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:
Mr Dewi Owen
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mr Llŷr Thomas

Penaethiaid Cynorthwyol /

Assistant Headteachers
Mr Huw Lloyd-Jones
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager

Mrs Sarah Hunter
CADY/ALNCO
Mrs Rhiannon Molyneux